Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun cenedlaethol i leihau'r defnydd o amalgam deintyddol yng Nghymru

Mehefin 2019

2019

© Hawlfraint y Goron 2019 WG38319 ISBN Digidol: 978-1-83876-654-2

## Cynllun Cenedlaethol i leihau'r defnydd o amalgam deintyddol yng Nghymru

### Cefndir

Mae Erthygl 10(3) o Reoliad yr UE 2017/852 ar fercwri yn ei gwneud yn ofynnol i'r aelod-wladwriaethau baratoi cynllun cenedlaethol sy'n nodi'r mesurau y byddant yn eu gweithredu i **leihau'r** defnydd o amalgam deintyddol.

Mae'r cynlluniau ar gyfer lleihau'r defnydd o amalgam deintyddol yng Nghymru yn cael eu hamlinellu yn yr ymgynghoriad canlynol:
*A consultation on the proposed Control of Mercury (Enforcement) Regulations 2017.*
https://consult.defra.gov.uk/environmental-quality/control-of-mercury-enforcement-regulations-2017/supporting_documents/20171016%20Draft%20UK%20Mercury%20Regulations%20Consultation%20Document.pdf

Cafodd y cynlluniau hyn eu trafod gyda Phwyllgor Deintyddol Cymru - sef pwyllgor cynghori statudol sy'n rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru - a chynrychiolwyr eraill o'r maes deintyddol yng Nghymru. Aethpwyd ati i gyfathrebu'n helaeth ag aelodau'r proffesiwn deintyddol, ac anfonodd y Prif Swyddog Deintyddol Cymru lythyr at bob deintydd a therapydd deintyddol.

Fel y nodwyd yn yr Ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Fforwm Cynghori Strategol Cenedlaethol ym maes Deintyddiaeth Bediatrig i gytuno ar gynllun cenedlaethol a fydd yn nodi'r disgwyliadau o ran darparu gofal a thriniaeth ddeintyddol i blant, ac i gyfathrebu ynghylch y cynllun hwnnw. O dan gyfarwyddyd Ymgynghorwyr mewn Deintyddiaeth Bediatrig, mae'r Fforwm wedi cyhoeddi canllawiau, sef *Providing Excellence in the care of children affected by decay.*

Cafodd y rhain eu hanfon at bob tîm deintyddol yng Nghymru, ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:
http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/udh-resources-for-health-professionals

Hefyd mae fersiwn derfynol o daflen wybodaeth am amalgam deintyddol yn cael ei pharatoi ar gyfer cleifion deintyddol yng Nghymru, a bydd hon ar gael yn ein holl bractisau deintyddol.

### Cynlluniau i leihau'r defnydd o amalgam deintyddol

1. Atal pydredd dannedd

Y prif ddull o weithredu yw osgoi'r angen i ddefnyddio amalgam fel deunydd llenwi i drin pydredd yn y dannedd. Mae'n bosibl atal pydredd bron yn gyfan gwbl, a chymerir camau ymarferol yng Nghymru drwy ein rhaglenni atal. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynllun Gwên – rhaglen genedlaethol i wella iechyd deintyddol plant. Ers cyflwyno Cynllun Gwên, rhwng 2008 a 2016, bu 13% ostyngiad yn lefel y pydredd

dannedd ymysg plant 5 oed yng Nghymru. Dyma'r gostyngiad sylweddol cyntaf ers dechrau cynnal astudiaethau epidemiolegol o iechyd deintyddol plant, a chafwyd gwelliant ar draws yr holl grwpiau cymdeithasol, gan gynnwys y plant mwyaf difreintiedig. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar gael plant i frwsio'u dannedd â phast dannedd fflworid yn ystod eu cyfnod meithrin a'u blynyddoedd cynnar yn yr ysgol. Mae'r rhaglen yn cael ei rhedeg gan y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol, ond mae cysylltiadau cryf wedi eu creu gydag ymwelwyr iechyd drwy'r rhaglen Plant Iach Cymru a hefyd gyda thimau gwasanaethau deintyddol cyffredinol.

http://www.designedtosmile.org/

- Y rhaglen ar gyfer gwella iechyd y geg i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru
- Hyrwyddo'r pecyn cymorth seiliedig ar dystiolaeth – *Delivering Better Oral Health*
- Cyngor y Prif Swyddog Deintyddol ar ddarparu gofal i blant 0-3 oed

Oherwydd ein dull gweithredu ataliol, gellir disgwyl mai cyfyngedig fydd unrhyw waith adfer y mae ei angen i drin pydredd newydd, ac y bydd yn bosibl gwneud y gwaith hwn drwy ddefnyddio technegau deintyddol nad ydynt ond yn gofyn am yr ymyrraeth leiaf, gan ddefnyddio defnyddiau cyfansawdd/*ionomers* sy'n fwy addas ar gyfer gwaith adfer llai.

- Diwygio Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol
  Mae Cymru yn defnyddio'r rhaglen ar gyfer diwygio contractau deintyddol y GIG i wneud y canlynol:
  - hyrwyddo gofal ataliol sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
  - cyflwyno asesiadau o risgiau ac anghenion ar gyfer cleifion er mwyn cyfathrebu'n fwy effeithiol â nhw, gan ddarparu cyngor a gofal ataliol sydd wedi eu teilwra ar gyfer yr unigolyn; a
  - hyrwyddo cymysgedd o sgiliau a sicrhau bod pob aelod o'r tîm proffesiynol sy'n darparu gofal deintyddol yn gweithio mewn modd sy'n manteisio ar eu cwmpas ymarfer llawn.

2. <u>Addysg a hyfforddiant y gweithlu deintyddol</u>

Byddwn yn gweithio gyda'n sefydliadau partner i sicrhau bod y gweithlu deintyddol yn cael ei haddysgu a'i hyfforddi ynghylch defnyddio defnyddiau llenwi amgen, a'i fod yn deall y gofynion ynghylch amalgam deintyddol. Yng Nghymru, y prif bartneriaid yw Ysgol Ddeintyddol Prifysgol Caerdydd (hyfforddiant i israddedigion), Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) (hyfforddiant adnewyddu a diweddaru i ôl-raddedigion), a Chyfadran Cymru Gyfan ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol sydd wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Bangor (hyfforddiant a datblygiad mewn perthynas â materion addysgol, ymchwil, arweinyddiaeth, a gwella).

3. <u>Cyfathrebu â'r proffesiwn, cleifion deintyddol, a'r cyhoedd</u>

Byddwn yn defnyddio dulliau cyfathrebu sydd ar waith eisoes i weithio gyda'r proffesiwn deintyddol yng Nghymru, gan gynnwys Pwyllgor Deintyddol Cymru,

Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, Iechyd Cyhoeddus Cymru, AaGIC, a byrddau iechyd.

Byddwn yn cyfathrebu â chleifion deintyddol drwy ddarparu gwybodaeth mewn practisau deintyddol yn bennaf.

Byddwn yn gweithio gyda chyrff sy'n cynrychioli cleifion, megis Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru (a'r sefydliadau sy'n eu holynu), i ystyried beth fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o gyfathrebu â'r cyhoedd yn ehangach.

**Risgiau a heriau**

Mae nifer o risgiau a heriau ynghlwm wrth y broses o leihau'r defnydd o amalgam deintyddol, a bydd angen inni ystyried y rhain wrth inni weithredu'r cynllun hwn.

1. Datblygu deunyddiau i'w defnyddio yn lle amalgam – nid oes un defnydd y gellir ei ddefnyddio bob tro yn lle amalgam, a dim ond o dan amgylchiadau penodol y gellir defnyddio'r deunyddiau amgen presennol.

2. Mae cyfyngiadau'r deunyddiau eraill hyn yn cynnwys:

- Nid yw'r deunyddiau cyfansawdd presennol yn para cyhyd ag amalgam. Efallai y byddai angen gwneud mwy o waith adfer, ac felly efallai y byddai costau adnoddau ychwanegol
- Gallai fod angen amser clinigol ychwanegol oherwydd defnyddio technegau mwy sensitif i osod y defnyddiau cyfansawdd hyn yn eu lle
- Nid oes gan y deunyddiau amgen presennol yr un cryfder ag amalgam, pan fo angen gwneud rhai mathau o waith adfer

3. Gallai'r costau sy'n gysylltiedig â deunyddiau neu dechnegau amgen effeithio'n uniongyrchol ar y cleifion sy'n cael gofal preifat, neu ar y systemau a ariennir gan y wladwriaeth, yn enwedig o ystyried y pwysau cynyddol ar gyllidebau gofal iechyd y llywodraeth a'r angen i flaenoriaethu cyllid.

4. Niwed i iechyd dynol – gwyddys bod mercwri 'rhydd' yn cael effeithiau niweidiol ar iechyd. Bu cyfyngiadau yn y gorffennol ar ddefnyddio amalgam yn nannedd menywod beichiog a menywod sy'n bwydo ar y fron, yn ogystal â phlant o dan 15 oed, yn seiliedig ar yr egwyddor o weithredu mewn modd ofalus hyd yn oed os nad oes unrhyw dystiolaeth gadarn y gallai fod yn niweidiol.

5. Demograffeg y boblogaeth. Cynyddu y mae nifer y bobl hŷn, ac yn aml bydd ganddynt ddannedd sydd wedi eu llenwi gydag amalgam ers blynyddoedd. Gallai fod angen ail-lenwi neu drwsio eu dannedd, ac mae'n bosibl mai amalgam fyddai'r dewis gorau o hyd ar gyfer gwaith adfer helaeth. Mae'n bosibl hefyd y byddai pobl hŷn sydd â phroblemau iechyd (megis y rheini sy'n byw gyda dementia) yn ei chael yn anodd cydweithredu tra bo deunyddiau amgen sy'n gofyn am ddefnyddio technegau sy'n cymryd mwy o amser ac sy'n fwy sensitif yn cael i lenwi eu dannedd.

6. Effeithiau amgylcheddol deunyddiau deintyddol eraill. Er mai'r effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu mercwri a chael gwared arno sydd wedi gyrru'r angen am newid, rhaid cofio bod deunyddiau llenwi eraill hefyd yn effeithio ar yr amgylchedd oherwydd yr hyn sy'n rhan ohonynt, y prosesau cynhyrchu, y pecynnu etc, a rhaid cadw hyn mewn cof.